

COFNODION CYFARFOD Y GRŴP LLYWIO BUDDSODDI RHANBARTHOL CYMRU

Dyddiad : Dyddiad: Dydd Llun 25 Chwefror 2021

Amser: Amser: 14:00 – 15:00 (drwy TEAMS)

Atodiad A: Yn bresennol

1. Croeso (14:00 – 14:05)

- Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a diolchodd i'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd, Jeremy Miles MS am ddod i'r cyfarfod heddiw.
- Nododd y Cadeirydd mai diben y cyfarfod oedd trafod datblygiadau diweddar o ran Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (SFP).

1. Diweddariad gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd (14:05)

- Gwnaeth y Gweinidog y pwyntiau allweddol canlynol:
 - Methodd yr Adolygiad o Wariant yn ddigamsyniol â chynnal ymrwymadau cyhoeddus blaenorol na fyddai Cymru'n waeth ei byd o ran SPF.
 - Mae Llywodraeth y DU hefyd bellach yn bwriadu rheoli cyllid Cymru o'r Gronfa Lefelu yn groes i'w chyhoeddiad yn yr Adolygiad o Wariant ar 25 Tachwedd y byddai'r arian hwn yn dod i Gymru yn y ffordd arferol (h.y. drwy Fformiwla Barnett).
 - Mae'r holl ddatblygiadau diweddar yn amharchu ein setliad datganoli ac yn tanseilio'r gwaith a wnaed gan y grŵp hwn i ddatblygu Fframwaith Buddsoddi Rhanbarthol newydd.
 - Mae'n ymddangos bod dull gweithredu Llywodraeth y DU yn ymgais fwriadol i danseilio dull strategol ac arfaethedig o ymdrin â datblygu rhanbarthol o blaid cronfa ddewisol fwy gwleidyddol ddewisol gyda bron dim gwaith datblygu polisi, ymgysylltu â rhanddeiliaid nac ymgynghori.
 - Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo o hyd i'r Fframwaith Buddsoddi Rhanbarthol fel y model ar gyfer datblygu economaidd rhanbarthol hirdymor yng Nghymru, gan amlinellu'r ffaith bod Cyd-bwyllgorau Corfforaethol a arweinir gan awdurdodau lleol ar fin cael eu sefydlu fel allwedd i'r uchelgeisiau i ddatganoli cyllid a gwneud penderfyniadau.

- Roedd sylwadau a wnaed gan yr Aelodau mewn ymateb i ddiweddariad y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd yn cynnwys:
 - Trafodaeth ynghylch cyfleoedd i weithio gyda sefydliadau eraill yn y DU a sefydliadau mewn gwledydd datganoledig i ddylanwadu ar ddatblygiad tymor hwy y SPF.
 - Os nad yw'r dull SPF a arweinir gan y DU yn cyd-fynd â chyd-destun Cymru, gallai ei ymyriadau fod yn niweidiol yn hytrach na bod o gymorth. Mae pryder y gallai'r broses ymgeisio gystadleuol ddadwneud y cynnydd a wnaed gan gydweithio lleol a rhanbarthol yng Nghymru.
 - Roedd trafodaeth ynghylch yr anniddigrwydd ynghylch osgoi Llywodraeth Cymru o'i gymharu â phragmatiaeth sicrhau'r cyllid mwyaf posibl i Gymru.
 - Ymholiad am gyllid ar gyfer ymchwil a datblygu ac a allai gwahanol ymagweddau at setliadau o ariannu ddilyn yn seiliedig ar gyhoeddiadau diweddar a Deddf Marchnad Fewnol y DU.
 - Diddordeb mewn datblygu 'Cynllun B' ar gyfer sicrhau'r cyllid mwyaf posibl oherwydd cyhoeddiadau Llywodraeth y DU ar SPF a'r Gronfa Lefelu.
- Mewn ymateb i'r materion a godwyd gan yr Aelodau, gwnaed y pwyntiau canlynol:
 - Mae'r Fframwaith yn ddull consensws o fuddsoddi rhanbarthol ac agenda a rennir. Gall barhau i lywio'r dull hirdymor o ymdrin â buddsoddiadau y tu hwnt i'r SPF.
 - Dylai rhanddeiliaid barhau i weithio mewn modd cydweithredol, ond dylent gymryd agwedd bragmatig tuag at sicrhau'r buddsoddiad mwyaf posibl i Gymru.
 - Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu'n adeiladol ond bydd yn pwyso am ddull sy'n seiliedig ar leoedd o ariannu ymchwil a datblygu yn y DU.
 - Mae'n ymddangos bod y dull presennol gan Lywodraeth y DU yn systemig, ac nid yn achos SPF a'r Gronfa Lefelu yn unig. Bydd angen ymgysylltu'n barhaus a rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru geisio ailosod cysylltiadau.

2. Trafodaeth agored (14:30 – 14:55)

- Dywedodd Peter Ryland (PR) nad yw'r Weinyddiaeth Tai, Llywodraeth Leol a Chymunedau, sy'n arwain ar SPF a'r Gronfa Lefelu, wedi rhannu llawer o fanylion â Llywodraeth Cymru sy'n ei gwneud y broses bontio o gronfeydd yr UE yn anodd.

- Dywedodd Rachel Garside-Jones (RGJ) mai'r camau nesaf oedd asesu'r cyhoeddiadau yng Nghyllideb y DU yr wythnos nesaf, ac y bydd adborth o'r cyfarfod heddiw yn helpu i lywio cyfarfod o'r Gweithgor Gweinidogol ar fuddsoddi rhanbarthol a Phapur Cabinet y mis nesaf.
- Roedd pwyntiau trafod eraill yn cynnwys:
 - Pryder bod yr agenda lefelu yn cael ei dominyddu gan y rhaniad rhwng y Gogledd a'r De yn Lloegr a'r potensial i gyd-destun Cymru gael ei wthio i'r ymylon.
 - Yr angen am gydweithredu parhaus er mwyn osgoi senarios niweidiol yn seiliedig ar natur gystadleuol cronfeydd y DU.
 - Goblygiadau ar gyfer prosiectau lle mae cronfeydd yr UE wedi dod yn un o elfennau craidd cyllid dros amser.
 - Cynnydd da yn cael ei wneud o ran datblygu'r Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol. Cyflwynir diweddariad yn y cyfarfod nesaf.

3. Unrhyw fater arall a sylwadau i gloi (14:55 – 15:00)
--

- Nododd y Cadeirydd gofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr a gofyn a oedd gan yr Aelodau unrhyw sylwadau. Ni chafwyd unrhyw sylwadau a derbyniwyd y cofnodion a byddant yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.
- Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ym mis Mawrth yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth y DU am brosbectws SPF ar gyfer y flwyddyn beilot, a ddisgwylid tuag adeg Cyllideb y DU ar 3 Mawrth.
- Gofynnodd y Cadeirydd am unrhyw sylwadau pellach cyn diolch i'r Aelodau am eu cyfraniad a chau'r cyfarfod.

ATODIAD A

RHESTR O FYNYCHWYR

Cadeirydd

Huw Irranca-Davies AS

Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog dros Bontio Ewropeaidd, Jeremy Miles AS

Aelodau

Sefydliad	Enw
CBI Cymru	Nick Speed, Cyfarwyddwr Materion Cyhoeddus, BT
Prifysgolion Cymru	Amanda Wilkinson, Cyfarwyddwr
Prifysgol Caerdydd	Yr Athro Calvin Jones, Dirprwy Ddeon Gwerth Cyhoeddus a Chysylltiadau Allanol
Cyfoeth Naturiol Cymru	Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu
Colegau Cymru	Iestyn Davies, Prif Weithredwr
Partneriaeth De-ddwyrain Cymru	Kellie Beirne, Prif Weithredwr, Bargaen Ddinesig Prifddinas-ranbarth Caerdydd
Partneriaeth De-orllewin Cymru	Y Cyng. Rob Stewart, Arweinydd, Cyngor Abertawe Y Cyng. David Simpson, Arweinydd, Cyngor Sir Penfro
Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru	Carwyn Jones-Evans, Rheolwr Twf a Datblygiadau Mawr, Cyngor Sir Ceredigion
Canolfan Cydweithredol Cymru	Derek Walker, Prif Weithredwr
Rhwydwaith Gwledig Cymru	Eirlys Lloyd, Rheolwr Partneriaethau Cymunedol/Canolfan Bwyd Cymru, Cyngor Ceredigion
CLILC	Lowri Gwilym, Rheolwr – Ewrop ac Adfywio, Adfywio a'r Amgylchedd
Siambrau Masnach De a Chanolbarth Cymru	Paul Slevin, Llywydd
Ffederasiwn Pobl Hunangyflogedig a Busnesau Bach Cymru	Ashley Rogers, Cyfarwyddwr, Gill and Shaw
Prifysgol Caerdydd	Claire Hobbs, Swyddog Ymchwil

Mynychwyr o Lywodraeth Cymru

Enw	Rôl ac adran
Peter Ryland	Prif Weithredwr, WEFO
Rachel Garside-Jones	Dirprwy Gyfarwyddwr – Buddsoddi Rhanbarthol, WEFO
Rhodri Griffiths	Prif Swyddog Rhanbarthol, y Canolbarth a'r De-orllewin – Yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol
David Rosser	Prif Swyddog Rhanbarthol, y De-ddwyrain – Yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol
Alison Sandford	Pennaeth Gwaith Partneriaeth, WEFO
Anton Orzel	Pennaeth Polisi Buddsoddi Rhanbarthol, WEFO
Mike Richards	Rheolwr Cyfathrebu, WEFO
Sheilah Seymour	Pennaeth Ymchwil a Dadansoddi, WEFO
Geraint Green	Pennaeth Rheoli Rhaglenni (ESF ac ETC), WEFO
Tom Brown	Uwch Reolwr Polisi, WEFO
Michelle Holland	Swyddog Cymorth Buddsoddi Rhanbarthol, WEFO
Justine George	Uwch Reolwr Ymyriadau Economaidd – Yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol